**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Gwener, 10fed Hydref, 2025 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillor Tudor Thomas (Chairman)

County Councillors: Tony Easson and M. Newell

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Taylor Watts | Licensing Officer |
| Julian Sanders | Solicitor |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**APOLOGIES:**

Ddim

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o fuddiant.

2. **Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol o fusnes yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

Penderfynodd y Pwyllgor i wahardd y wasg a'r cyhoedd.

3. **Cais am drwydded fangre newydd: 1 Stop, 7 Y Stryd Fawr, Cas-gwent, Sir Fynwy, NP16 5LH**

Croesawodd y Cadeirydd yr Ymgeisydd a'i Asiant i'r cyfarfod. Cyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor, y Swyddogion oedd yn bresennol a dau Wrthwynebydd eu hunain. Esboniwyd y protocol ar gyfer y cyfarfod.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd iddo gael yr adroddiad a chydnabod y byddai'n symud ymlaen gyda'i Asiant yn ei gynrychioli. Dywedodd y ddau Wrthwynebydd iddynt gael yr adroddiad a chydnabod y byddent yn symud ymlaen heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

Cafodd y materion a manylion allweddol eu darllen yn uchel i'r Pwyllgor gan y Swyddog Trwyddedu.

Esboniodd y Gwrthwynebwyr eu pryderon am y cais a chaniatawyd cwestiynau.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Gwener, 10fed Hydref, 2025 at 10.00 am**

Rhoddwyd cyfle i Asiant yr ymgeisydd a'r Ymgeisydd i annerch y Pwyllgor. Yn dilyn hyn, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau i'r ymgeisydd ac Asiant yr ymgeisydd.

Yn dilyn cwestiynau, gadawodd Aelodau'r Pwyllgor y cyfarfod i drafod.

Ar ôl ail-ddechrau, dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi ystyried y cais ac wedi penderfynu dyfarnu trwydded. Cafodd y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad eu hesbonio yn fanylach fel sy'n dilyn:

Penderfyniad

- Gweithredu yr holl amodau y gofynnodd yr Heddlu amdanynt.
- Gwerthiant alcohol i ddod i ben am 10pm dydd Llun i ddydd Sul.

Rhesymeg

- Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i hanes masnachu yr Ymgeisydd.
- O bwyso a mesur popeth, teimlai'r Pwyllgor y dylid dyfarnu'r drwydded i'r Ymgeisydd.
- Mae'r Ymgeisydd yn derbyn iddo wneud camgymeriadau ac mae bellach wedi dilyn hyfforddiant a achredwyd gan y diwydiant.
- Mae'r Ymgeisydd yn deall canlyniadau peidio cydymffurfio gyda deddfwriaeth trwyddedu,

**The meeting ended at 12.00 pm**